| LLythrennedd – Llafaredd ar draws y cwricwlwm<br>Y Cyfnod Sylfaen | | Meithrin | Dosbarth derbyn | Blwyddyn 1 | Blwyddyn 2 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Elfennau** | **Agweddau** | **Mae dysgwyr yn gallu:** | **Mae dysgwyr yn gallu:** | **Mae dysgwyr yn gallu:** | **Mae dysgwyr yn gallu:** |
| **Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau** | **Siarad** | • mynegi eu hunain, gydag ystumiau priodol<br>• trafod llun, modelau a symudiadau mewn termau syml<br>• ail-adrodd digwyddiad neu brofiad mewn termau syml<br>• siarad yn ddigon clir i gael eu deall gan oedolion a chyfoedion<br>• dynwared bywyd go iawn a phrofiadau dychmygol o fewn gweithgaredd chwarae rôl<br>• dangos ymwybyddiaeth bod rhai synau yn newid ar ddechrau geiriau trwy hwiangerddi a chaneuon | • siarad am bethau o'u profiad a rhannu gwybodaeth<br>• defnyddio geiriau, cymalau a brawddegau syml<br>• mynegi beth yw eu hoff bethau a'u cas bethau<br>• siarad yn glywadwy<br>• cyfrannu i weithgareddau chwarae rôl gan ddefnyddio iaith berthnasol<br>• dangos ymwybyddiaeth bod rhai synau yn newid ar ddechrau geiriau, *e.e. dau gi, y gath* | • mynegi barn ar bynciau cyfarwydd<br>• siarad am bethau y maent wedi'u llunio neu wedi'u gwneud, gan esbonio'r broses<br>• cynnwys rhai manylion a rhywfaint o eirfa berthnasol i ymhelaethu ar eu syniadau neu eu hadroddiadau<br>• siarad yn glywadwy, gan gyfleu ystyr i wrandawyr sydd y tu hwnt i'w grŵp cyfeillion<br>• mabwysiadu rôl gan ddefnyddio iaith briodol<br>• dangos ymwybyddiaeth bod rhai synau'n newid ar ddechrau geiriau, *e.e. y ferch* | • mynegi barn, gan roi rhesymau a chynnig atebion priodol i gwestiynau<br>• ymestyn eu syniadau neu eu hadroddiadau gan drefnu'r hyn y maent yn ei ddweud a chynnwys manylion perthnasol<br>• siarad yn eglur ag ystod o gynulleidfaoedd<br>• mabwysiadu rôl benodol, gan ddefnyddio iaith sy'n briodol mewn sefyllfaoedd strwythuredig<br>• defnyddio ambell dreiglad y maent wedi ei ymarfer ar lafar, *e.e. y bêl, fy mag, i'r dref* |
| | **Gwrando** | • gwrando ac ymateb â sylw a chanolbwyntio cynyddol<br>• gwrando ac ymuno â chaneuon, rhigymau a storïau<br>• ailadrodd stori neu wybodaeth y maent wedi'i glywed mewn termau syml<br>• gofyn cwestiwn priodol am rywbeth sydd wedi'i ddweud | • dangos eu bod wedi gwrando ar eraill, *e.e. wrth dynnu llun*<br>• ymuno wrth adrodd/canu hwiangerddi, rhigymau a chaneuon, eu hailadrodd neu eu dysgu ar y cof, gyda pheth cymorth<br>• gofyn cwestiynau am rywbeth a ddywedwyd | • gwrando ar eraill, â sylw cynyddol, gan ymateb yn briodol fel arfer, *e.e. dilyn cyfarwyddiadau'n gywir*<br>• ymuno wrth adrodd/canu amrywiaeth o rigymau a chaneuon, eu hailadrodd neu eu dysgu ar y cof<br>• ailadrodd naratifau neu wybodaeth y maent wedi eu clywed<br>• dangos eu bod yn deall yr hyn y maent wedi ei glywed drwy holi cwestiynau i ddod o hyd i ragor o wybodaeth<br>• ateb cwestiynau gan ddefnyddio ffurfiau cywir fel arfer, *e.e. Oes? Oes/Nac oes* | • gwrando ar eraill gan ganolbwyntio, deall y prif bwyntiau a gofyn am eglurhad os oes ei angen<br>• ailadrodd naratifau neu wybodaeth y maent wedi eu clywed, gan osod y digwyddiadau yn eu trefn gywir<br>• dangos eu bod yn deall yr hyn y maent wedi ei glywed drwy holi cwestiynau perthnasol i ddod o hyd i wybodaeth benodol<br>• ateb cwestiynau gan ddefnyddio ffurfiau cywir, *e.e.Ydy? Ydy/Nac ydy* |
| | **Cydweithio a thrafod** | • deall confensiynau sgwrsio a thrafod<br>• cymryd rhan gydag eraill mewn gweithgareddau, gyda pheth rhyngweithio. | • cyfnewid syniadau wrth drafod yn unigol ac mewn grwpiau bach, *e.e. gyda ffrindiau*<br>• cymryd rhan mewn gweithgareddau gydag eraill, gyda pheth rhyngweithio. | • cyfrannu i sgyrsiau ac ymateb i eraill, gan gymryd eu tro o'u hysgogi<br>• cymryd rhan mewn gweithgareddau gydag eraill a siarad am yr hyn y maent yn ei wneud. | • cyfrannu i drafodaeth, parhau i ganolbwyntio ar y pwnc a chymryd eu tro i siarad<br>• rhannu gweithgareddau a gwybodaeth i gwblhau tasg. |

© Hawlfraint y Goron 2014 WG21273

| Llythrennedd – Llafaredd ar draws y cwricwlwm<br>Cyfnod Allweddol 2 | | Blwyddyn 3 | Blwyddyn 4 | Blwyddyn 5 | Blwyddyn 6 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Elfennau** | **Agweddau** | **Mae dysgwyr yn gallu:** | **Mae dysgwyr yn gallu:** | **Mae dysgwyr yn gallu:** | **Mae dysgwyr yn gallu:** |
| **Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau** | **Siarad** | • esbonio gwybodaeth a syniadau gan ddefnyddio geirfa briodol<br>• trefnu'r hyn y maent yn ei ddweud fel bod y gwrandawyr yn gallu dilyn, *e.e. pwysleisio pwyntiau allweddol, rhoi esboniad yn ei drefn*<br>• siarad yn eglur, gan amrywio'r mynegiant i helpu'r gwrandawyr<br>• defnyddio iaith sy'n berthnasol i sefyllfaoedd mwy ffurfiol, *e.e. yn ystod y gwasanaeth, siarad ag ymwelydd (gan ddechrau defnyddio ti/chi)*<br>• cadw mewn rôl a chynorthwyo eraill wrth chwarae rôl<br>• defnyddio'r treigladau mwyaf cyffredin yn gywir fel arfer, *e.e. y gadair, ar ben* | • esbonio gwybodaeth a syniadau gan ddefnyddio adnoddau cynorthwyol, *e.e. deunyddiau ar sgrin ac ar y we*<br>• trefnu sgwrs er mwyn i gynulleidfaoedd gwahanol ddilyn yr hyn sy'n cael ei ddweud, *e.e. rhoi gwybodaeth gefndir, rhoi crynodeb byr o'r prif bwyntiau*<br>• addasu sgwrs gan ddangos eu bod yn deall y gwahaniaethau rhwng sgwrs anffurfiol ymhlith ffrindiau a sgwrs fwy estynedig â grŵp ehangach, *e.e. defnyddio ti/chi*<br>• archwilio sefyllfaoedd gwahanol drwy chwarae rôl<br>• defnyddio'r treigladau mwyaf cyffredin yn gywir, *e.e. fy nghalon* | • esbonio gwybodaeth a syniadau, archwilio a defnyddio ffyrdd o argyhoeddi, *e.e. defnydd o eirfa, ystum, cynorthwyon gweledol*<br>• siarad yn eglur, gan ddefnyddio iaith ffurfiol a thaflu'r llais yn effeithiol i gynulleidfa fawr, *e.e. digwyddiad i rieni/gofalwyr, cyflwyniad i ymwelwyr*<br>• archwilio dadleuon a themâu drwy chwarae rôl<br>• treiglo'n gywir fel rheol ar ôl y rhan fwyaf o'r arddodiaid a'r rhagenwau, *e.e. am funud, dy fam* | • mynegi materion a syniadau'n eglur, gan ddefnyddio geirfa arbenigol ac enghreifftiau<br>• siarad yn eglur gan ddefnyddio iaith ffurfiol ac amrywio mynegiant, tôn a chryfder y llais, i gadw diddordeb y gwrandawyr<br>• archwilio materion heriol neu ddadleuol drwy barhau i gynnal y rôl y maent yn ei chwarae<br>• treiglo'n gywir ar ôl arddodiaid a rhagenwau, gan ddechrau dod yn ymwybodol nad yw pob llythyren yn dilyn y drefn arferol, *e.e. y llinell* |
| | **Gwrando** | • gwrando'n ofalus a gwneud cysylltiadau rhwng yr hyn y maent yn ei ddysgu a'r hyn y maent eisoes yn ei wybod<br>• gwirio eu bod yn deall drwy ofyn cwestiynau perthnasol neu gynnig sylwadau perthnasol | • gwrando'n ofalus ar gyflwyniadau gan ddangos dealltwriaeth o'r prif bwyntiau<br>• ar ôl gwrando, ymateb gan fynegi barn am yr hyn y mae'r siaradwr wedi'i ddweud | • gwrando'n astud ar gyflwyniadau gan ddefnyddio technegau i gofio'r prif bwyntiau, *e.e. gwneud nodiadau, crynhoi*<br>• gwrando ar eraill, gofyn cwestiynau ac ymateb i'r cynnwys a safbwyntiau'r siaradwr | • gwrando'n ofalus ar gyflwyniadau gan ddangos dealltwriaeth o gasgliadau neu farn y siaradwyr<br>• ymateb i eraill gyda chwestiynau a sylwadau sy'n canolbwyntio ar resymau, goblygiadau a chamau nesaf |
| | **Cydweithio a thrafod** | • cyfrannu i drafodaeth grŵp, gan rannu syniadau a gwybodaeth<br>• siarad yn bwrpasol er mwyn cyflawni tasg mewn grŵp. | • cyfrannu i drafodaeth grŵp, gan helpu pawb i gymryd rhan<br>• helpu grŵp i ddod i gytundeb, *e.e. ystyried rhesymau neu ganlyniadau, cadw ffocws ar y pwnc/peidio â dilyn ysgyfarnogod wrth drafod pwnc.* | • cyfrannu i drafodaeth grŵp, gan gymryd rhywfaint o gyfrifoldeb dros gyflawni'r dasg yn dda, *e.e. cyflwyno syniadau perthnasol, crynhoi*<br>• ychwanegu at a datblygu syniadau dysgwyr eraill mewn trafodaethau grŵp, *e.e. drwy holi cwestiynau i archwilio ymhellach, cynnig syniadau ychwanegol.* | • cyfrannu'n bwrpasol i drafodaeth grŵp er mwyn dod i'r canlyniadau y cytunwyd arnynt<br>• codi pwyntiau o drafodaeth grŵp, gan gytuno neu anghytuno a rhoi rhesymau. |

© Hawlfraint y Goron 2014 WG21273

## Llythrennedd – Llafaredd ar draws y cwricwlwm
### Cyfnod Allweddol 3

| Elfennau | Agweddau | Blwyddyn 7 | Blwyddyn 8 | Blwyddyn 9 |
|---|---|---|---|---|
| | | **Mae dysgwyr yn gallu:** | **Mae dysgwyr yn gallu:** | **Mae dysgwyr yn gallu:** |
| **Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau** | **Siarad** | • cyflwyno pynciau a syniadau'n eglur gan ddefnyddio iaith ffurfiol ac amrywio'r hyn y maent yn ei ddweud a sut maent yn ei ddweud er mwyn ennyn diddordeb y gwrandawyr, *e.e. mynegiant, tôn y llais, cryfder y sain*<br>• ymateb i gwestiynau a sylwadau'r gwrandawyr yn adeiladol ac yn fanwl<br>• dadlau'n llawn argyhoeddiad gan ddefnyddio gwybodaeth am y pwnc yn effeithiol, *e.e. wrth chwarae rôl neu mewn dadl*<br>• defnyddio ystod o dreigladau'n gywir (treigladau meddal, trwynol a llaes) yn eu cyd-destun | • cyflwyno pynciau a syniadau'n gydlynus, gan ddefnyddio technegau'n effeithiol, *e.e. strwythur clir, hanesyn i gyflwyno enghraifft, casgliadau credadwy*<br>• ymateb i farn eraill yn gadarnhaol a phriodol o gael eu herio<br>• amddiffyn dadl gyda gwybodaeth a rhesymau, *e.e. wrth chwarae rôl neu mewn dadl*<br>• defnyddio ystod o dreigladau'n gywir (treigladau meddal, trwynol a llaes) yn eu cyd-destun | • cyflwyno syniadau a materion yn llawn argyhoeddiad gan ddefnyddio amryw o dechnegau i greu effaith, *e.e. cwestiynau rhethregol, apelio at y gwrandawyr, ystumiau*<br>• ymateb i adwaith y gwrandawyr gan addasu'r hyn y maent yn ei ddweud a sut maent yn ei ddweud<br>• cynnal dadl argyhoeddedig, rhagweld safbwyntiau eraill ac ymateb iddynt, *e.e. wrth chwarae rôl neu mewn dadl*<br>• defnyddio ystod o dreigladau'n gywir (treigladau meddal, trwynol a llaes) yn eu cyd-destun |
| | **Gwrando** | • ymateb yn bwyllog i syniadau eraill, gan ofyn cwestiynau cymwys<br>• gwrando ar esboniadau o brosesau, dilyniant neu safbwyntiau a nodi'r prif bwyntiau yn eu trefn | • ymateb yn gadarnhaol ac ystyrlon i syniadau newydd a safbwyntiau gwahanol<br>• gwrando ar wybodaeth a syniadau (ar sgrin neu'n fyw) a nodi sut mae tystiolaeth yn cael ei ddefnyddio, *e.e. i amddiffyn barn*, neu ei chamddefnyddio, *e.e. i gamarwain drwy orliwio* | • ystyried perthnasedd ac arwyddocâd gwybodaeth a syniadau a gyflwynwyd iddynt<br>• gwrando ar wybodaeth a syniadau ac adnabod sut maent yn cael eu cyflwyno i hybu safbwynt penodol, *e.e. defnyddio iaith sy'n darbwyllo/perswadio, anwybyddu ffeithiau anghyfleus, dod i gasgliad afresymegol* |
| | **Cydweithio a thrafod** | • gwneud amrywiaeth o gyfraniadau i drafodaethau, *e.e. arwain, annog a chefnogi eraill*<br>• cyrraedd consensws a chytuno ar gamau gweithredu mewn grwpiau, *e.e. cytuno ar gynllun, pwyso a mesur rhesymau a thystiolaeth*. | • cymryd amrywiaeth o rolau, *e.e. trefnu, rhoi camau gweithredu ar waith*, mewn cyd-destunau grŵp mwy ffurfiol, *e.e. wrth weithio gydag oedolion a chyfoedion anghyfarwydd*<br>• trafod safbwyntiau cyferbyniol, a thrafod y camau nesaf. | • ymgymryd ag amrywiaeth o rolau mewn trafodaeth grŵp gan gymryd mwy o gyfrifoldeb dros eu barn, gan gynnwys mewn sefyllfaoedd mwy ffurfiol, *e.e. cadeirydd, ysgrifennydd*<br>• nodi bod amrywiaeth o ddewisiadau o ran camau gweithredu a dod i gytundeb er mwyn cyflawni amcanion y grŵp. |

© Hawlfraint y Goron 2014 WG21273

## Llythrennedd – Llafaredd ar draws y cwricwlwm
### Cyfnod Allweddol 4

| Elfennau | Agweddau | Blwyddyn 10 | Blwyddyn 11 | Ymestyn |
|---|---|---|---|---|
| | | **Mae dysgwyr yn gallu:** | **Mae dysgwyr yn gallu:** | **Mae dysgwyr yn gallu:** |
| **Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau** | **Siarad** | • cyflwyno syniadau a phynciau i gwrdd â gofynion gwahanol gynulleidfaoedd<br>• siarad yn rhugl, gan ddefnyddio ystod o dechnegau, dywediadau ac ystumiau<br>• defnyddio iaith ffurfiol mewn ystod o gyd-destunau<br>• ymateb i adwaith y gwrandawyr ac addasu eu hiaith yn ôl y cyd-destun a'r diben<br>• cyflwyno safbwynt gydag argyhoeddiad a chynnal y safbwynt hwnnw, gan ragweld safbwyntiau eraill ac ymateb iddynt, *e.e. wrth chwarae rôl neu mewn dadl*<br>• defnyddio ystod o dreigladau'n gywir (treigladau meddal, trwynol a llaes) yn gywir yn eu cyd-destun | • cyflwyno syniadau a phynciau i gwrdd â gofynion gwahanol gynulleidfaoedd<br>• siarad yn rhugl ac yn hyderus, gan ddefnyddio ystod o dechnegau, dywediadau ac ystumiau<br>• defnyddio iaith ffurfiol mewn ystod eang o gyd-destunau<br>• ymateb yn hyderus i adwaith y gwrandawyr gan addasu eu hiaith mewn amrywiaeth eang o gyd-destunau ac at ddibenion gwahanol<br>• siarad gydag argyhoeddiad mewn ystod amrywiol o sefyllfaoedd a chyd-destunau i gwrdd â dibenion gwahanol<br>• defnyddio ystod o dreigladau'n gywir (treigladau meddal, trwynol a llaes) yn gywir yn eu cyd-destun | • dewis arddulliau a chyweiriau addas wrth siarad<br>• blaenoriaethu'r manylion hanfodol wrth esbonio pynciau cymhleth ac anodd<br>• ysgogi, datblygu a chynnal trafodaeth grŵp, gan ddangos dealltwriaeth o syniadau cymhleth<br>• bod yn hyblyg yn eu hymatebion i herio rhagdybiaethau a datblygu syniadau<br>• siarad a gwrando'n hyderus mewn ystod o sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol. |
| | **Gwrando** | • ymateb i syniadau eraill mewn ffordd ystyriol, gan ofyn iddynt egluro eu hunain drwy ofyn cwestiynau priodol<br>• gwrando ar bob math o wybodaeth a syniadau o wahanol safbwyntiau, gan nodi sut mae gwahanol siaradwyr yn cyflwyno safbwyntiau penodol | • ymateb yn hyderus ac yn sensitif i syniadau eraill mewn gwahanol sefyllfaoedd gan ystyried yr wybodaeth a'r syniadau dan sylw a gofyn cwestiynau perthnasol<br>• gwrando ar ystod o wybodaeth a syniadau o wahanol safbwyntiau, gan nodi sut mae gwahanol siaradwyr yn cyflwyno safbwyntiau penodol | |
| | **Cydweithio a thrafod** | • addasu eu siarad mewn pob math o rolau, gan gynnwys sefyllfaoedd a chyd-destunau mwy ffurfiol, *e.e. siarad â chynulleidfaoedd mawr mewn trafodaeth ffurfiol*<br>• defnyddio opsiynau a strategaethau amrywiol er mwyn galluogi'r grŵp i ddod i gonsensws. | • addasu eu siarad gyda hyder gynyddol mewn pob math o rolau, gan gynnwys sefyllfaoedd a chyd-destunau mwy heriol a ffurfiol, *e.e. cyflwyno i gynulleidfaoedd allanol/anghyfarwydd*<br>• defnyddio opsiynau a strategaethau amrywiol er mwyn galluogi'r grŵp i ddod i gonsensws. | |

© Hawlfraint y Goron 2014 WG21273